

Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus

Adrodd i	Prif Weithredwr
Contract	Llawm Amser, Parhaol (Ystyrir rhannu swydd)
Cyflog	£52,590 – £59,585 y flwyddyn
Buddion	37 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd ag 8 o wyliau cyhoeddus a hyd at 5 diwrnod dewisol, mynediad at gynllun pensiwn buddion diffiniedig (opsiwn LGPS), opsiynau gweithio hyblyg, cynlluniau aberthu cyflog ar gyfer talebau gofal plant, maes parcio am ddim
Lleoliad	Cyfuniad o weithio gartref a gwaith swyddfa (Tongwynlais, Caerdydd)
Oriau	37 awr yr wythnos

Prif Ddiben y Rôl

Arwain ar ddatblygu amcanion polisi a materion cyhoeddus allweddol a chyfathrebu ar ran ColegauCymru a dylanwadu ar benderfynwyr allweddol, rhanddeiliaid allanol a chynulleidfaoedd gan gynnwys y rhai o fewn Llywodraeth Cymru, pleidiau gwleidyddol, undebau llafur a'r cyfryngau.

Arwain y Tîm Polisi a Chyfathrebu i gynhyrchu dadansoddiad polisi cryf a chyfathrebu effeithiol, gan ddatblygu polisiâu a strategaethau yn unol â nodau ac amcanion elusennol y sefydliad.

Cyfrannu at Uwch Dîm Rheoli cyffredinol ColegauCymru.

Prif Ddyletswyddau

- Arwain ar ddatblygu polisi cyhoeddus i gefnogi a gwella darpariaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru.
- Rheoli adnoddau a phrosesau sy'n galluogi ColegauCymru i gefnogi datblygiad gweithlu addysg bellach sy'n addas ar gyfer y dyfodol, trafodaethau'r sector addysg bellach gydag undebau llafur addysg bellach perthnasol, a phartneriaethau cymdeithasol yn y sector addysg bellach.
- Sicrhau bod cyfathrebiadau ColegauCymru yn effeithiol ar draws ystod o gynulleidfaoedd mewnol ac allanol.
- Ymgynghori ag aelodau a'r gymuned polisi cyhoeddus ehangach yn barhaus ar faterion polisi.
- Casglu gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â datblygu polisi cyhoeddus perthnasol yng Nghymru, y DU a thramor.

- Sicrhau bod ymatebion i bapurau ymgynghori perthnasol gan Lywodraeth Cymru, Senedd Cymru a sefydliadau eraill yn cael eu cyflwyno.
- Darparu tystiolaeth a chyflwyniadau i bwyllgorau ymchwilio a phwyllgorau craffu yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr.
- Paratoi briffiau polisi i aelodau yn ôl y gofyn.
- Datblygu strategaethau cyfathrebu priodol ar gyfer gwaith y sefydliad ar y cyd â staff perthnasol.
- Drafftio erthyglau ar gyfer cyhoeddiadau mewnol ac allanol ac arwain ar gynhyrchu maniffestos polisi, adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau eraill yn ôl yr angen.
- Cynnull a chydlynu unrhyw is-grwpiau a phwyllgorau sefydliadol perthnasol yn ôl yr angen.
- Rheoli gwaith y Tîm Polisi a Chyfathrebu, staff eraill a chontractwyr yn ôl yr angen.
- Mynychu cyfarfodydd Pwyllgor Negodi Addysg Bellach Cymru (PGCC) ac unrhyw is-grwpiau perthnasol yn ôl y gofyn.

Cyfrifoldebau'r Uwch Dîm Rheoli

- Cyfrannu at reolaeth a llywodraethu effeithiol cyffredinol y sefydliad trwy gymryd rhan mewn cyfarfodydd uwch reolwyr ac ati.
- Cytuno ar amcanion rheoli perfformiad blynyddol gyda'r Prif Weithredwr yn unol â strategaeth a chynllun gweithredol ColegauCymru.
- Cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol a chynllunio gweithredol blynyddol a rheoli gwaith y Tîm Polisi a Chyfathrebu gan gytuno ar DPA blynyddol ac adolygu cynnydd a gweithrediad yn rheolaidd.
- Ymgymryd â thasgau rhesymol eraill yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr.

Cysylltiadau Allweddol

- Bydd angen i ddeiliad y swydd ffurfio perthynas waith effeithiol a chydweithredol gyda cholegau a rhanddeiliaid eraill.
- Bydd disgwyl hefyd i ddeiliad y swydd gynnal a meithrin cysylltiadau ag Aelodau'r Senedd, swyddogion Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau, noddwyr a phartneriaid. Gweithio gyda sefydliadau cenedlaethol sydd â rôl mewn darparu addysg uwch a dysgu seiliedig ar waith a chyda'r undebau llafur perthnasol.
- Disgwylir i ddeiliad y swydd fod yn rhagweithiol yn ei ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ei hun a dangos agwedd hyblyg fel y nodir yn y telerau ac amodau gwasanaeth.

Sylwer: Mae'r Disgrifiad Swydd hwn yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod. Mewn ymgynghoriad â deiliad y swydd, gellir ei amrywio i adlewyrchu newidiadau yn y swydd.

24 Mehefin 2022

Manyleb Person

Crynoir y sgiliau a'r profiad y mae ColegauCymru yn ceisio eu recriwtio fel a ganlyn.

Meini prawf hanfodol
Gradd neu gymhwyster lefel Proffesiynol neu brofiad gwaith perthnasol
Gwybodaeth fanwl am amgylchedd gwleidyddol Cymru a sut i ddylanwadu ar yr agenda gwleidyddol
Profiad o weithio ar lefel uwch wrth ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer
Profiad lefel uwch a hanes profedig o adeiladu cynghreiriau a gweithio gyda rhanddeiliaid i ddylanwadu ar newid cadarnhaol
Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog gyda'r gallu i deilwra arddull ac ymagwedd i weddu i amrywiaeth o gynulleidfaoedd a dibenion
Sgiliau ymchwil a dadansoddi cryf, gan gynnwys y gallu i gymhathu llawer iawn o wybodaeth newydd yn gyflym a chyflwyno hyn mewn ffordd hygyrch
Profiad o ddatblygu safbwyntiau polisi ar sail tystiolaeth a nodi argymhellion polisi
Profiad o reoli ac arwain tîm effeithiol sy'n perfformio'n dda
Sgiliau rhyngpersonol rhagorol a'r gallu i reoli safbwyntiau croes
Meddwl strategol a'r gallu i nodi cyfleoedd ar gyfer effaith yn rhagweithiol
Y gallu i weithio'n annibynnol yn ogystal fel rhan o dîm
Rheolaeth ariannol a'r gallu i reoli cyllidebau, gan gynnwys ar gyfer prosiectau penodol
Meini prawf dymunol
Gwybodaeth am y sector addysg ôl-orfodol
Sgiliau Cymraeg
Sgiliau cyflwyno ardderchog

Gofynion Arall

Yn ogystal, bydd disgwyl i ddeilydd y swydd weithio'n hyblyg yn unol â gofynion gwaith gan gynnwys teithio a gwaith achlysurol gyda'r nos ac ar y penwythnos. Byddant yn dangos

ymrwymiad gweithredol i werthfawrogi amrywiaeth a chydraddoldeb a byddant bob amser yn cydnabod ac yn cynnal cyfrinachedd.

Gofynion Iaith Gymraeg

Rhaid i bob gweithiwr gydymffurfio â gofynion Safonau'r Gymraeg y sefydliad a chymryd pob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg wrth iddynt ddelio â'r cyhoedd.

Mae'r rhestr ganlynol o ofynion iaith yn cynrychioli asesiad gwrthrychol o'r sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol i gyflawni dyletswyddau penodol y swydd hon. Mae Colegau Cymru yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg.

Sgiliau Cymraeg	Dymunol
Darllen	Dealltwriaeth o ddeunydd sy'n gysylltiedig â gwaith
Siarad	Yn gallu siarad lefel cymedrol o Gymraeg
Deall	Yn gallu deall rhai sgysiau sy'n gysylltiedig â gwaith
Ysgrifennu	Yn gallu ateb ebyst neu ymholiadau syml